# Archwiliwch **Sir y Fflint**
# Explore **Flintshire**



Cliciwch ar y dolenni isod
Click on links below


- Bwyd a Diod
- Hanes a Diwylliant
- Atyniadau i'r Teulu Cyfan
- Gwneud pethau egnïol
- Cerdded Llwybrau
- Mwynhau'r Arfordir
- Trefi

- Food and Drink
- History & Culture
- Family Outings
- Activities
- Walks and Hikes
- Coastal Sights
- Towns


CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

# Bwyd a Diod
# Food and Drink



Yn Sir y Fflint mae amrywiaeth eang o fwyd a diod blasus sydd wedi eu tyfu neu eu cynhyrchu’n lleol.

Gallwch fwynhau sgons a theisennau hyfryd yn stafelloedd te yr ardal neu brydau traddodiadol maethlon yn nhafarnau niferus y sir. Yn Sir y Fflint mae rhywbeth at bob dant!

Ac nid dim ond ar eich plât y mae Sir y Fflint yn disgleirio, gan bod llu o dyfwyr a chynhyrchwyr yn rhoi’r cyfle i chi brofi cynnyrch lleol ledled y sir O ganlyniad i enw da’r sir am fwyd a diod blasus cynhelir Gŵyl Fwyd a Diod flynyddol yn Yr Wyddgrug. Yno daw gwerthwyr a phrynwyr at ei gilydd ym maes parcio Stryd Newydd am benwythnos ym mis Medi bob blwyddyn i ddathlu’r cynnyrch danteithiol gorau sydd gan y sir i’w chynnig.

Ar y tudalennau canlynol, mae enghreifftiau o rai o’r llefydd gorau yn Sir y Fflint lle cewch fwynhau pob math o ddanteithion.

Os ydych yn chwilio am le newydd i fwyta, rhowch gynnig ar TripAdvisor. Ac er mwyn canfod y cynhyrchion lleol gorau, yn deisennau, cawsiau a chigoedd, edrychwch hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol a thudalennau’r we.

Flintshire is home to a wide range of cuisines and tasty home-grown and locally sourced food and drink products.

From finely crafted scones and cakes in local tea rooms to traditional home-cooked meals across the county’s many pubs, Flintshire has something for every tastebud.

But it is not just on the plate where the local area shines, with Flintshire’s many growers and producers allowing you to experience local products right across the county.

The area’s reputation for tasty food and drink extends to the annual Food and Drink Festival held in Mold. Bringing producers and diners together, it takes over the New Street car park for a weekend in September each year to showcase the best and brightest offerings the county has to offer.

On the following pages you can discover a selection of spots which will shine a light on some of Flintshire’s finest locations to sample all kinds of delights.

If you are looking for a potential new place to dine out, try TripAdvisor, while those looking to tackle some of the best locally-sourced products from cakes and treats to cheese and meat, can explore online on social media and search engines.






Os ydych chi wedi cael hyd i le newydd da i fwyta yn Sir y Fflint, gadewch i ni wybod trwy yrru neges Instagram i **@explore_flintshire** neu Facebook **@exploreflintshire**

Found a new favourite dining spot in Flintshire? Send us a message on Instagram **@explore_flintshire** or on Facebook **@exploreflintshire**

# Bwyd a Diod  Food and Drink





## *Brecwast*

### Ystafell De, The Tea Rooms at the Pet Cemetery

Treffynnon, CH8 8AD

**tearoomsflintshire.co.uk**

★★★★½ seren ar TripAdvisor – 448 Adolygiad

Yn The Tea Rooms at the Pet Cemetery yn Nhreffynnon bydd eich brecwast yn cynnwys ffefrynnau o'r ardal – o brydau traddodiadol i ddewisiadau fegan a dewisiadau iach i'r rhai sydd am roi cynnig ar rywbeth newydd.

## *Breakfast*

### The Tea Rooms at the Pet Cemetery

Holywell, CH8 8AD

**tearoomsflintshire.co.uk**

★★★★½ stars on TripAdvisor – 448 Reviews

The tearooms at the Pet Cemetery in Holywell is home to a locally-sourced variety of breakfast favourites – from traditional meals to options for vegans or healthier picks for those looking to try something new.





## *Cinio*

### Tafarn The Piccadilly Inn

Caerwys, CH7 5AW

**piccadillyinn.co.uk**

★★★★½ seren ar TripAdvisor – 895 Adolygiad

Mae Tafarn The Piccadilly Inn yn arbenigo mewn bwyd tafarn traddodiadol Prydeinig mewn awyrgylch fodern, gan gymysgu'r hen a'r newydd i greu prydau blasus. Mae'r fwydlen yn amrywio gyda'r tymhorau.

## *Lunch*

### The Piccadilly Inn

Caerwys, CH7 5AW

**piccadillyinn.co.uk**

★★★★½ stars on TripAdvisor – 895 Reviews

The Piccadilly Inn serves up traditional British pub food in a modern setting, blending the old with the new and providing lovingly crafted meals which vary throughout the seasons.

# Bwyd a Diod  Food and Drink








*Cinio Nos*

## Tafarn The Plough Inn

Queensferry, CH5 1TJ

**theploughaston.co.uk**

★★★★☆ seren ar TripAdvisor – 730 Adolygiad

Yn nhafarn The Plough Inn, cewch rai o'r prydau cartrefol gorau sydd ar gael, a chinio Sul poblogaidd iawn. Gwyliwch hefyd am eu nosweithiau thema rheolaidd.

*Dinner*

## The Plough Inn


Queensferry, CH5 1TJ


**theploughaston.co.uk**

★★★★☆ stars on TripAdvisor – 730 Reviews

The family-run Plough Inn provides some of the finest home-cooked meals alongside its well-regarded Sunday Carvery. Also make sure to keep an eye out for one of its regular theme nights.







*Pob pryd*

## Siop fferm Hawarden Estate Farm Shop

Hawarden, CH5 3FB

**hawardenestate.co.uk**

★★★★☆ seren ar TripAdvisor – 895 Adolygiad

Gyda dewis helaeth o'r bwyd a diod gorau sydd ar gael yn Sir y Fflint, gallwch hefyd grwydro'r caeau i gasglu ffrwythau a llysiau drosoch eich hun. Yn siop fferm Hawarden Estate Farm Shop, mae popeth ar gael gyda'i gilydd mewn un lle.

*All-Round*

## Hawarden Estate Farm Shop

Hawarden, CH7 5AW

**hawardenestate.co.uk**

★★★★☆ stars on TripAdvisor – 895 Reviews

With a healthy range of the best food and drink Flintshire has to offer as well as the chance to wander into the fields and pick your own produce, Hawarden Estate Farm Shop is the one-stop shop for you.

# Hanes a Diwylliant
# History & Culture



Mae gan Sir y Fflint hanes cyfoethog ac amrywiol, yn cynnwys olion y goresgyniad Rhufeinig a gweddillion llu o ddiwydiannau'r gorffennol.

Dros y cenedlaethau, newidiodd y tirwedd wrth i bob datblygiad newydd adael ei ôl. Wrth grwydro hwnt ac yma cawn ein hatgoffa am dreftadaeth gyfoethog Sir y Fflint.

Ymhlith atyniadau hanesyddol y sir, mae cestyll canol oesol, safleoedd mwyngloddio a ffatrïoedd y Chwyldro Diwydiannol. Hefyd yn Sir y Fflint mae safleoedd pwysig i'r rhai sy'n caru diwylliant neu yn ymddiddori yn natblygiad sefydliadau addysg uwch.

Bydd hyd yn oed yr haneswyr mwyaf gwybodus yn llwyddo i ddysgu pethau newydd yn y gwahanol atyniadau.

Yn nhrefi Bwcle, Yr Wyddgrug, Y Fflint, Cei Connah a Threffynnon, crëwyd llwybrau trefol lle cewch ddilyn ôl troed trigolion y gorffennol a mwynhau safleoedd pwysig hanesyddol a hardd yr ardal.

Gellir canfod y teithiau hyn a mwy ar Ap Teithiau Digidol Gogledd Ddwyrain Cymru – North East Wales Digital Trails App. Mae'r ap yn cynnwys mapiau o'r llwybrau a llawer o wybodaeth ddefnyddiol amlgyfrwng. Chwiliwch am 'North East Wales' ar safleoedd Apple a Google Play Store.

Ar y tudalennau nesaf mae detholiad o'r llefydd y gallwch ymweld â nhw - mannau hanesyddol sy'n adleisio'r newidiadau a fu o genhedlaeth i genhedlaeth, yng ngorffennol amrywiol a chyfoethog Sir y Fflint.

Cofiwch edrych ar safleoedd adolygu annibynnol fel TripAdvisor, gwnewch eich ymchwil eich hun ar lein a holwch farn pobl eraill ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn ychwanegu at eich rhestr o lefydd difyr i ymweld â nhw.

Flintshire has a rich and diverse history including ancient Roman occupation to the vast industrial past which is scattered across the county landscape.

The local area has seen an ever-developing landscape morph over the course of history, with each new development leaving a fresh mark on the pages of Flintshire's archives.

Flintshire hosts a wide variety of historical interests, from medieval castles left to the annals of time, mining sites and factories which arose out of the Industrial Revolution to the spots of culture and institutions of higher knowledge which have developed in the county.

The numerous locations will inform, educate and entertain even the most knowledgeable of historians.

The towns of Buckley, Mold, Flint, Connah's Quay and Holywell also host town heritage trails, which allow you to follow in the footsteps of the historical figures before you and uncover some of the important historical sites and scenes which have played out in the local area.


These trails and more can be located on the North East Wales Digital Trails App - found on the Apple and Google Play stores – which gives you a path map along with a range of multimedia information about the trail.

On the next pages you will see a handful of spots which echo the changes and variety which can be found about Flintshire's past.

Don't forget to look at independent review sites such as TripAdvisor, carry out your own research online or ask for people's opinions on social media to add to your list.

Oes gennych chi hoff lecyn hanesyddol yn Sir y Fflint? Os felly, gadewch inni wybod trwy yrru neges Instagram i **@explore_flintshire** neu Facebook **@exploreflintshire**

Do you have a favourite historical spot within Flintshire? Let us know by sending us a message on Instagram **@explore_flintshire** or on Facebook **@exploreflintshire**





# Hanes a Diwylliant History & Culture



## Bryn y Beili

Yr Wyddgrug, CH7 1RB

Lawrlwythwch ap digidol Gogledd Ddwyrain Cymru / North East Wales:

- **Ar gael yn yr App Store**
- **Ar gael o Google Play**

★★★★☆ seren ar TripAdvisor – 33 Adolygiad

Codwyd castell mwnt a beili Bryn y Beili yn nhref Yr Wyddgrug yn wreiddiol yn yr 11fed ganrif. Ychydig sy'n weddill o'r gaer erbyn hyn ac mae natur wedi ailfeddiannu'r bryn. O'r llecyn tawel hwn cewch olygfa braf dros weddill y dref.

## Bailey Hill

Mold, CH7 1RB

Download the North East Wales Digital app:

- **Available on the App Store**
- **Get it on Google Play**

★★★★☆ stars on TripAdvisor – 33 Reviews

Mold's Bailey Hill was the site of a motte-and-bailey castle originally built in the 11th century. While little remains of the fortress, the hill is now a public park, home to a gorsedd circle with great views of the town and further afield.



## Castell Caergwrle

Caergwrle, LL12 9DG

Lawrlwythwch ap digidol Gogledd Ddwyrain Cymru / North East Wales:

- **Ar gael yn yr App Store**
- **Ar gael o Google Play**

Codwyd Castell Caergwrle ar fryn yn edrych dros wastadedd Lloegr. Dyma un o'r cestyll Cymreig olaf a godwyd cyn i Gymru gael ei goresgyn gan Loegr. Gall ymwelwyr grwydro o amgylch y castell, sydd bellach yn adfeilion gan mwyaf ar ôl i dân ei ddinistrio yn 1283.

## Caergwrle Castle


Caergwrle, LL12 9DG

Download the North East Wales Digital app:

- **Available on the App Store**
- **Get it on Google Play**

Built upon a hill and providing views which gaze out into England, Caergwrle Castle was one of the last Welsh castles built before falling under English control. Visitors can explore the castle, which is mostly ruins after a fire ran through the site in 1283.

# Hanes a Diwylliant History & Culture



## Cofeb Pen Pwll Glofa'r Parlwr Du

Ffynnongroyw, CH8 9UU

Lawrlwythwch ap digidol Gogledd Ddwyrain Cymru / North East Wales:

**Ar gael yn yr App Store**
**Ar gael o Google Play**

seren ar TripAdvisor – 3 Adolygiad

Dewch i ddysgu am hanes glowyr Cymru ar safle'r pwll glo dwfn olaf yng Ngogledd Cymru. Yn ei hanterth roedd Glofa'r Parlwr Du yn cyflogi 500 o weithwyr, ond caeodd yn 1996 wedi dros 100 mlynedd o gloddio.

## Point of Ayr Colliery Headgear Monument

Ffynnongroyw, CH8 9UU

Download the North East Wales Digital app:

**Available on the App Store**
**Get it on Google Play**

stars on TripAdvisor – 3 Reviews

Delve into the mining history of Wales with this monument immortalising the last operational deep coal mine in North Wales. During its peak, the colliery employed more than 500 workers, closing in 1996 after more than 100 years of mining.



## Llyfrgell Gladstone

Penarlâg, CH5 3DF

**gladstoneslibrary.org**

seren ar TripAdvisor – 243 Adolygiad

Ffurfiwyd y llyfrgell breswyl hon yn 1894 gan William Gladstone, a oedd ar un adeg yn Brif Weinidog Prydain. Mae yma dros 180,000 o lyfrau a lle tawel i astudio neu ddarllen. Ac os ydych yn teimlo'n llwglyd, mae bistro yma hefyd.

## Gladstone's Library

Hawarden, CH5 3DF

**gladstoneslibrary.org**

stars on TripAdvisor – 243 Reviews

Founded by former British Prime Minister William Gladstone in 1894, this residential library contains more than 180,000 books and provides a quiet place to study or read, with a bistro also located on site.

# Atyniadau i'r Teulu Cyfan
# Family Outings



Mae gan Sir y Fflint lawer o atyniadau lle gall y teulu cyfan fwynhau'r awyr agored a chrwydro.

Beth bynnag yw eich diddordeb - edrych ar fyd natur, teithio drwy goedwigoedd neu ganfod pethau diddorol i'w gwneud ar ddiwrnodau gwlyb, mae gan yr ardal lefydd diddorol a fydd yn plesio pawb.

O ddiddanu plant bach, plesio pobl ifanc yn eu harddegau, i dreulio amser gwerthfawr gyda pherthnasau hŷn, ni chewch eich siomi yn Sir y Fflint.

Gallwch ddysgu am hanes ein gorffennol wrth i'n treftadaeth ddiwydiannol gael ei chyflwyno mewn ffyrdd addas i bob oed. Cewch hwyl yn ogystal ag addysg wrth grwydro'r sir.

Yn yr adran hon nodir rhai o'r gweithgareddau niferus ac amrywiol sydd gan Sir y Fflint i'w gynnig i'r teulu cyfan.

Cofiwch edrych ar safleoedd adolygu fel TripAdvisor, ar y we ac ar y cyfryngau cymdeithasol i ganfod llu o lefydd difyr i'r teulu ymweld â nhw.

Flintshire has numerous options for those looking to get out and about and experience enjoyable activities with the entire family.

From fun days out seeing wildlife and travelling through woodlands to activities perfect for a rainy day, the county provides outings which will be loved by everyone.

Whether seeking something to do with a new-born, to entertaining a teenager or spending precious time with elderly relatives, you won't be disappointed by what Flintshire has to offer.

Mixing fun with education, many choices within the county will not only keep you entertained but also learning about topics such as safety or industrial history in a manner which is suitable for all ages.

In this section you will see a selection of activities covering the vast array of family offerings Flintshire has to offer.

You can also use ratings sites such as TripAdvisor or search engines and social media to discover each and every location for a family outing in Flintshire.

Oes gennych chi hoff lecyn hanesyddol i fynd efo'r teulu yn Sir y Fflint? Os felly, gadewch inni wybod trwy yrru neges Instagram i **@explore_flintshire** neu Facebook **@exploreflintshire**

Do you have a favourite place to go with the whole family within Flintshire? Let us know by sending us a message on Instagram **@explore_flintshire** or on Facebook **@exploreflintshire**





# Atyniadau i'r Teulu Cyfan Family Outings





## Parc Anifeiliaid Greenacres

Glannau Dyfrdwy, CH5 2TZ

**greenacresanimalpark.co.uk**

seren ar TripAdvisor – 352 Adolygiad

Ar safle dros 80 erw o faint, mae Greenacres Animal Park yn gartref i lu o anifeiliaid o bob rhan o'r byd – yn amrywio o Walabis i Capybaras. Drwy'r parc helaeth mae hefyd reidiau ffair a theithiau tractor.

## Greenacres Animal Park

Deeside, CH5 2TZ

**greenacresanimalpark.co.uk**

stars on TripAdvisor – 352 Reviews

Spread across 80 acres, Greenacres showcases a wide variety of animals to see from across the globe, ranging from Wallabies to Capybaras alongside funfair rides and tractor tours throughout the property.



## PentrePeryglon

Talacre, CH8 9RL

**dangerpoint.org.uk**

seren ar TripAdvisor – 40 Adolygiad

Yn y ganolfan ryngweithiol hon caiff ymwelwyr fynd ar daith ddiddorol o amgylch lle sy'n debyg i set gwneud ffilmiau! Wrth fwynhau llu o weithgareddau difyr byddant yn dysgu am bwysigrwydd diogelwch ym mhob dim a wnawn.

## DangerPoint

Talacre, CH8 9RL

**dangerpoint.org.uk**

seren ar TripAdvisor – 40 Adolygiad

This interactive visitor centre takes you on an educational trip where safety is the focus, teaching you with a range of engaging activities to keep you entertained as you travel through the film set-esque environment.

# Atyniadau i'r Teulu Cyfan Family Outings



## Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas

Maes Glas / Greenfield, CH8 7QU

**greenfieldvalley.com**

★★★★☆ seren ar TripAdvisor – 183 Adolygiad

Gyda dros 2,000 o flynyddoedd o hanes wrth law, mae Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas yn cynnig gweithgareddau i blesio pawb – o le chwarae antur mawr i lwybrau cerdded drwy'r coed ac amgueddfa sy'n adrodd hanes diwydiannol yr ardal.

## Greenfield Valley Heritage Park

Greenfield, CH8 7QU

**greenfieldvalley.com**

★★★★☆ stars on TripAdvisor – 183 Reviews

Encompassing more than 2,000 years of history, Greenfield Valley Heritage Park offers activities of all shapes and sizes, from a large adventure playground to walks through the woods and a museum detailing the area's industrial history.



## Theatr Clwyd

Yr Wyddgrug, CH7 1YA

**theatrclwyd.com**

★★★★½ seren ar TripAdvisor – 230 Adolygiad

Theatr Clwyd yw canolfan Sir y Fflint i'r celfyddydau perfformio. I bawb sy'n mwynhau diwrnodau diwylliannol mae yma ddewis anferthol – o weld y ffilmiau poblogaidd diweddaraf i sioeau llwyfan o bob math, a gweithdai perfformio i blant.

## Theatr Clwyd

Mold, CH7 1YA

**theatrclwyd.com**

★★★★½ stars on TripAdvisor – 230 Reviews

Flintshire's hub for the performing arts, Theatr Clwyd gives those looking for a cultural day out plenty of options, from viewings of the latest award-winning films to diverse stage shows and performing workshops for children.

# Gwneud pethau egnïol

# Activities



Yn Sir y Fflint lle mae llwyth o weithgareddau egnïol i'w mwynhau a dewisiadau difyr a fydd yn cyffroi ac apelio at bobl o bob oed – o blant i gant!

Mae gan yr ardal rywbeth i blesio pawb – o garwyr ceir cyflym sy'n hoffi rhoi troed ar y sbardun i feicwyr sydd am ddangos eu sgiliau ar lwybrau beicio cyffrous a fydd yn eu herio i'r eithaf.

Yn Sir y Fflint, nid yn unig y mae llu o bethau i gyflymu'r galon mewn tywydd teg, ond hefyd digon o atyniadau a diddordebau i'w dilyn pan nad yw'r haul yn gwenu cystal.

Yn yr adran hon fe welwch rai o'r gweithgareddau egnïol sydd gan Sir y Fflint i'ch cadw ar flaenau'ch traed.

Cofiwch nad yw'r rhestr hon yn cynnwys pob dim. Ewch i chwilio ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol i ganfod llawer o bethau cyffrous eraill i'w gwneud yn y sir.

Flintshire is a vibrant, busy county with plenty of activities for you to take on, and the area plays host to a variety of interesting and engaging options suitable for all.

With activities available for people of all ages and skill levels, the local area has something for everyone, from petrol heads looking to claim the chequered flag to those looking to test themselves on the thrilling biking trails which weave their way throughout the county.


While Flintshire may host a range of activities which get the heart racing in clearer weather, there are also plenty of choices for spots and pastimes which can be undertaken in wetter weather.


In this section you will find a selection of activities which will keep you energised as well as entertained.

Remember, this is not a definitive list, so head online to use search engines and social media to explore alternative activities to undertake in the county.

Oes gennych chi hoff weithgaredd egnïol yn Sir y Fflint? Os felly, gadewch inni wybod trw yrru neges Instagram i **@explore_flintshire** neu Facebook **@exploreflintshire**

Do you have a favourite activity within Flintshire? Let us know by sending us a message on Instagram **@explore_flintshire** or on Facebook **@exploreflintshire**





# Gwneud pethau egnïol Activities






## Coed Nercwys

Nercwys, CH7 4BW

**naturalresources.wales**

★★★★★ seren ar TripAdvisor – 21 Adolygiad

Yng Nghoed Nercwys mae llwybr beicio delfrydol i bawb sydd eisiau mwynhau golygfeydd hardd a lle beicio diogel yn yr ardal. Mae'r llwybr tua tair milltir o hyd yn gwau ei ffordd drwy'r goedwig ac yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o'r teulu.

## Coed Nercwys Forest

Nercwys, CH7 4BW

**naturalresources.wales**

★★★★★ stars on TripAdvisor – 21 Reviews

Coed Nercwys Forest provides an ideal cycling route for those looking to experience scenic and safe biking trails in the region. With a trail around three miles long, the route weaves you through the forest and is suitable for most of the family.





## Parc y Gorffennol

Yr Hôb, LL12 9RB

**parkinthepast.org.uk**

Mewn 120 erw o dir coediog a gwlyb, mae Parc y Gorffennol yn cynnig cyfuniad o weithgareddau treftadaeth ac ymarfer corff. Mae yno gaer Rufeinig maint llawn i'w harchwilio ynghyd â llyn mawr i'w fwynhau mewn caiac neu ar fwrdd padlo.

## Park in the Past

Hope, LL12 9RB

**parkinthepast.org.uk**

Spread across 120 acres of woodlands and wetlands, Park in the Past offers a blending of heritage and physical activities, with a full-scale Roman fort to explore alongside a large lake to kayak and paddleboard in.

# Gwneud pethau egnïol Activities





## Cae Hic Riding Centre

Treuddyn, CH7 4NS

**Cae Hic Riding Centre**

seren ar TripAdvisor – 10 Adolygiad

Canolfan deuluol yng nghefn gwlad Sir y Fflint yw Cae Hic. Mae'n cynnig gwersi marchogaeth ar bob lefel ynghyd â chyfleoedd i reidio'n hamddenol ar hyd llwybrau ceffyl niferus yn union gerllaw'r ganolfan.



## Cae Hic Riding Centre

Treuddyn, CH7 4NS

**Cae Hic Riding Centre**

stars on TripAdvisor – 10 Reviews

A family-run centre in the Flintshire countryside, Cae Hic offers horse riding lessons across all riding levels as well as ways to experience the activity casually, heading out onto the many bridal passageways which sit right on the doorstep of the centre.

## Apex Kart

Glannau Dyfrdwy, CH5 2QD

**apexkart.co.uk**

seren ar TripAdvisor – 115 Adolygiad

Rhowch eich troed ar y sbardun yn y ganolfan gwibgartio hon sy'n cynnig pob dim, o deithio'n hamddenol i rasio cystadleuol ar wib. Ac mae cwrs golff bach dan do i ddifyrru'r rhai sydd am gael seibiant o sgrialu o amgylch y trac rasio.

## Apex Cart

Deeside, CH5 2QD

**apexkart.co.uk**

stars on TripAdvisor – 115 Reviews

Put your pedal to the metal at this go-karting facility which offers everything from casual drives to competitive racing, with an indoor mini-golf course also providing an outlet for those looking to take a break from the racetrack.

# Cerdded Llwybrau
# Walks and Hikes



Mae'n wir mai Sir y Fflint yw'r sir hanesyddol leiaf yng Nghymru, ond gwnaed defnydd effeithiol o bob modfedd ohoni i greu llwybrau cerdded trawiadol i'ch cadw'n egnïol a'ch arwain at rai o fannau hanesyddol cuddiedig gorau'r ardal.

Mae daearyddiaeth Sir y Fflint yn amrywio o lwybrau gwastad yr arfordir i lwybrau serth mynyddig a fydd yn herio pob math o gerddwyr – o grwydriaid hamddenol i heicwyr o fri.

Mae llawer o'r llwybrau yn gwau eu ffordd trwy drefi'r sir gan gysylltu ag atyniadau fel llwybrau treftadaeth trefol, a fydd yn cyfuno eich cerdded gyda dysgu am hanes cyfoethog ac amrywiol yr ardal.

Mae sawl llwybr cenedlaethol yn cychwyn neu orffen o fewn yr ardal fel bod modd ehangu eich gorwelion tu hwnt i'r sir gan adeiladu ar y sylfaen gadarn a gawsoch yn Sir y Fflint.

Yn yr adran nesaf, cewch fanylion rhai o'r ardaloedd gorau i gerdded ynddynt yn Sir y Fflint - yn deithiau mynyddig egnïol neu lwybrau gwastad ochr llyn, a phob dim rhwng y ddau begwn.

Mae nifer o safleoedd annibynnol yn adolygu llwybrau cerdded a heicio'r sir, er enghraifft AllTrails, a gallwch holi amdanynt ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae Cyngor Sir y Fflint hefyd yn cyhoeddi arweinlyfr defnyddiol o'r enw Cerdded yng Nghefn Gwlad Sir y Fflint - Rural Walks in Flintshire.

Despite being the smallest historic county in Wales, Flintshire makes use of every square inch, packing in stunning walks and trails which not only keep you active but lead you to some of the best hidden locations in the county.

With terrain ranging from leisurely coastal pathways to difficult mountainous passages, Flintshire can challenge all types of walkers from the casual to the most experienced of hikers.

Many routes which weave into the county's towns also link up with activities such as the town heritage trails, which further merge your hikes with the rich and varied history of the local area.

Many national trails also begin or end their journey within the county, meaning if you feel the urge to expand your horizons further, you can do so with the foundation that Flintshire provides.


In the coming section you will see a selection of some of the best walking areas and routes Flintshire has to offer, from mountainous travels to lakeside strolls and everything in between.

There are a number of independent review sites for walking and hiking trails such as AllTrails, as well as the option to ask for recommendations on social media.

In addition, Flintshire County Council has a useful Rural Walks in Flintshire **guide**.

Oes gennych chi hoff lwybr cerdded yn Sir y Fflint? Os felly, gadewch inni wybod trwy yrru neges Instagram i **@explore_flintshire** neu Facebook **@exploreflintshire**

Do you have a favourite walking route within Flintshire? Let us know by sending us a message on Instagram **@explore_flintshire** or on Facebook **@exploreflintshire**





# Gwneud pethau egnïol Walks and Hikes





## Bryniau Clwyd

Cilcain, CH7 5PA

**clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk**

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn ymestyn o un pen i Sir y Fflint i'r llall. Gall cerddwyr brwd, a phawb sydd eisiau mynd am dro mwy heriol, roi cynnig ar y daith i ben Moel Arthur – un o'r copaon yng nghadwyn Bryniau Clwyd. Yno mae bryngaer o'r Oes Haearn a golygfeydd hardd o'r sir gyfan.

## Clwydian Range

Cilcain, CH7 5PA

**clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk**

With the Clwydian Range and Dee Valley AONB stretching through Flintshire, avid hikers and those looking for a more slightly challenging stroll can tackle the trek up to the top of Moel Arthur, one of the many peaks in the Clwydian Range, an Iron Age hillfort which provides views stretching out over the county.





## Mynydd Helygain

Helygain

**halkynmountain.co.uk**

Mae Mynydd Helygain yn eistedd ar ben rhwydwaith eang o siafftiau a thwneli lle bu cloddio plwm a charreg galch dros filoedd o flynyddoedd. Wrth i gerddwyr groesi'r llecyn agored hwn o dir comin, cânt olwg fanwl ar hanes y diwydiant mwyngloddio yng Nghymru.

## Halkyn Mountain

Halkyn

**halkynmountain.co.uk**

Sitting on top of a wide network of mine shafts and tunnels which were used in the search for for lead and limestone for thousands of years, Halkyn Mountain offers walkers an open landscape of common land to traverse across and a deep look into the history of Welsh mining.

# Gwneud pethau egnïol Walks and Hikes





## Parc Gwledig Waun y Llyn

Llanfynydd, LL11 5HP

**alltrails.com**

★★★★☆ seren ar AllTrails – 19 Adolygiad

Mae'r tro chwe milltir o amgylch Parc Gwledig Waun y Llyn a Mynydd Helygain yn cynnig tirwedd a golygfeydd amrywiol wrth ichi weu eich ffordd drwy fryniau Sir y Fflint. Cewch olygfeydd ysblennydd dros Benarlâg tuag at Gilgwri.

## Waun Y Llyn Country Park

Llanfyndd, LL11 5HP

**alltrails.com**

★★★★☆ stars on AllTrails – 19 Reviews

Showcasing far-reaching views across Hawarden and onto the Wirral, the six-mile circular walk around Waun y Llyn Country Park and Hope Mountain provides a variety of terrains and sights as you weave through the Flintshire hills.





## Taith Caerwys i Ysceifiog

Caerwys i Ysceifiog, CH7 5AN

**flintshire.gov.uk**

Mae'r gylchdaith bum milltir hon yn mynd â chi drwy dref fach Caerwys, dros dir amaethyddol a rhwng coedwigoedd troellog â Llynnoedd Ysgeifiog, a grëwyd gan ddyn. Ar eich taith fe welwch lawer iawn o adar a phryfaid gwas y neidr (dragonflies) yn nhywydd cynnes yr haf.

## Caerwys to Ysceifiog Route

Caerwys, CH7 5AN

**flintshire.gov.uk**

This five-mile round trip takes you from the small town of Caerwys up through rolling farmland and between the winding woodlands and man-made Ysceifiog Lakes, with plenty of birds and dragonflies to spot in the warmer months.

# Mwynhau'r Arfordir
# Coastal Sights



Yn rhedeg ar hyd ochr ddeheuol Afon Dyfrdwy at Fôr Iwerddon, mae arfordir Sir y Fflint yn 25 milltir o hyd ac yn ffurfio rhan o Lwybr Arfordir Cymru.

Roedd yn lle pwysig ar gyfer masnachu a chludo nwyddau yn anterth y Chwyldro Diwydiannol. Bellach, mae arfordir y sir wedi newid yn sylweddol gyda bywyd gwyllt ac awyr glir yn adfeddiannu llawer iawn o'r dir tywodlyd y glannau.

Wrth gasglu cregyn ar draeth Talacre neu wylio'r pysgotwyr wrth eu gwaith ym Mhorthladd Maes Glas, mor braf yw anadlu awyr iach y môr.

Yn yr adran nesaf nodir rhai o'r mannau diddorol ac unigryw sy'n cael eu clymu gan arfordir Sir y Fflint.

Mae tudalen arbennig yn ymwneud â'r arfordir ar wefan Cyngor Sir y Fflint lle cewch wybodaeth gynhwysfawr am ardaloedd y glannau.

Running up along the southern side of the River Dee before being the entryway into the Irish sea, Flintshire's coast stretches for 25 miles and forms part of the Wales Coast Path.

Often a port of call to transport goods and services at the height of the Industrial Revolution, the county's coastline has undergone a rapid transformation, with wildlife and clear skies reclaiming significant aspects of the sandy shores which make up the coastline.


Whether you're searching for shells at Talacre beach or watching the fishermen in action at Greenfield Dock, breathing in the sea air never felt so good.

In this coming section you will see a selection of interesting and unique locations along the Flintshire coast which rolls everything the local area has to offer into one.

Head to the dedicated coastal page on the Flintshire County Council website for comprehensive resources and **guides**.

Pa un yw eich hoff le ar arfordir Sir y Fflint? Gadewch inni wybod trwy yrru neges Instagram i **@explore_flintshire** neu Facebook **@exploreflintshire**

Do you have a favourite coastal spot within Flintshire? Let us know by sending us a message on Instagram **@explore_flintshire** or on Facebook **@exploreflintshire**





# Mwynhau'r Arfordir Coastal Sights



## Llwybr Arfordir Cymru – Sir y Fflint

Saltney i Dalacre, CH4 8RL - LL19 9SS

**flintshire.gov.uk**

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn dechrau ar y ffin yn Saltney ac yn dilyn glan y môr yr holl ffordd i Draeth Talacre a'r Parlwr Du. Dyma ran gyntaf siwrnai 870 milltir yr holl ffordd o amgylch arfordir ein gwlad.

## Wales Coast Path – Flintshire

Saltney to Talacre, CH4 8RL - LL19 9SS

**flintshire.gov.uk**

Beginning on the border in Saltney and running along the coast all the way to Talacre Beach and the Point of Ayr, the first leg of the **Wales Coast Path** is the start of an 870-mile journey along the nation's coast.





## Blaendraeth Y Fflint

Y Fflint, CH6 5PE

**flintshire.gov.uk**

Gan wau ei ffordd ar hyd aber Afon Dyfrdwy, heibio gwaith celf a cherfluniau yn arddangos hanes a diwylliant yr ardal, mae'r llwybr hwn ar hyd blaendraeth Y Fflint yn eich tywys yn y pen draw i Gastell Y Fflint.

## Flint Foreshore

Flint, CH6 5PE

**flintshire.gov.uk**

Winding up along the Dee Estuary and encompassing artworks and sculptures showcasing the history and culture of the region, this walk along the foreshore of Flint culminates with an arrival at Flint Castle.

# Mwynhau'r Arfordir Coastal Sights



## Blaendraeth Llys Bedydd (Bettisfield)

Bagillt, CH6 6HE

Lawrlwythwch ap digidol Gogledd Ddwyrain Cymru / North East Wales:

- **Ar gael yn yr App Store**
- **Ar gael o Google Play**

Mae'r llwybr hwn yn cyfuno golygfeydd o'r arfordir a threftadaeth ddiwydiannol. Wrth deithio ar hyd blaendraeth Bagillt fe welwch gyfoeth hanes diwydiannol yr ardal a'r amrywiaeth eang o fywyd gwyllt a ymgartrefodd yno.

## Bettisfield Foreshore

Bagillt, CH6 6HE

Download the North East Wales Digital app:

- **Available on the App Store**
- **Get it on Google Play**

Wrapping up coastal and industrial heritage into one, this route along the foreshore of Bagillt touches on the rich industrial history of the area and the wide range of wildlife which now occupies the region.




## Llwybr Beicio Cenedlaethol Rhif 5 – Sir y Fflint

Shotton, CH5 1PY

**flintshire.gov.uk**

Mae Llwybr Beicio Cenedlaethol Rhif 5 yn un o l wybrau beicio hiraf y Deyrnas Unedig, ac yn cyrraedd Sir y Fflint dros Bont Penarlâg. Yna mae'n rhedeg ar hyd yr arfordir cyn troi ymaith o'r mor, anelu am y bryniau o amgylch Treffynnon a chroesi'r mynydd i Sir Ddinbych.

## Cycle Network Route 5 – Flintshire

Shotton, CH5 1PY

**flintshire.gov.uk**

One of the longest cycling routes in the UK, Cycle Network Route 5 enters Flintshire at Hawarden Bridge and runs up along the coast and cuts up into the hills around Holywell for a mountainous ride before crossing over into Denbighshire.

# Trefi
# Towns


CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL
Croeso i Sir y Fflint
Welcome to Flintshire

Yn Sir y Fflint mae llawer iawn o drefi braf i fyw ynddynt a’r trigolion yn falch iawn ohonynt. Mae pob un ohonynt yn rhoi darlun unigryw o’n gorffennol, presennol a dyfodol.

Mae pob prif dref yn cynnig rhywbeth gwahanol, er enghraifft tref farchnad hanesyddol Yr Wyddgrug neu Gei Connah â’i gorffennol diwydiannol. Oherwydd eu hetifeddiaeth digymar mae’n werth ymweld â phob un o drefi’r sir wrth deithio o amgylch yr ardal.

Os ydych am brofi peth o hanes a gweithgareddau ehangach yr ardal, edrychwch ar adrannau blaenorol yr e-lyfr hwn a’i gyfuno gyda’ch ymchwil eich hun. Ac arhoswch yn un o drefi’r sir er mwyn mwynhau’r gorau oll y gall yr ardal hon ei gynnig.

Yn yr adran yma cyfeirir ar fannau a gweithgareddau penodol y mae’n werth chweil eu profi yn nhrefi Sir y Fflint, o safleoedd crefyddol cysegredig i farchnadoedd lleol.

Flintshire is home to a number of towns to which any resident would be proud to call home, and the county’s settlements can provide a unique look into the past, present and future of each town.

Each major town in the county is different in some manner, from Mold’s market town history to the industrial past of Connah’s Quay, and it is this unrivalled past which makes each town in the county an essential stop along your travels throughout the area.

Those looking to experience the wider history and activities of the local area are encouraged to use the selections found earlier in the ebook alongside their own research and combine their stays in the county’s towns into ones which take in all the very best Flintshire has to offer.

In this section you will see specific spots and activities which are worth checking into within Flintshire’s towns, from sacred religious sites to local markets.

Oes gennych chi hoff dref yn Sir y Fflint? Os felly, gadewch inni wybod trwy yrru neges Instagram i **@explore_flintshire** neu Facebook **@exploreflintshire**

Do you have a favourite town within Flintshire? Let us know by sending us a message on Instagram **@explore_flintshire** or on Facebook **@exploreflintshire**





## Yr Wyddgrug a Threffynnon Mold and Holywell




### Marchnadoedd Yr Wyddgrug

Yr Wyddgrug, CH7 1AZ

**totallymold.org.uk**

seren ar TripAdvisor – 36 Adolygiad

Cynhelir y farchnad awyr agored ddwywaith yr wythnos yng nghanol y dref, tra bo'r farchnad dan do ar agor bob dydd. Ym Marchnad Yr Wyddgrug cewch ddewis cyfoethog o eitemau a chynnyrch lleol – gyda hyd at 70 o stondinau ar y Stryd Fawr ac yn Sgwâr Daniel Owen.

### Mold Markets

Mold, CH7 1AZ

**totallymold.org.uk**

stars on TripAdvisor – 36 Reviews

The outdoor market is held twice a week along the high street, while the indoor market is open daily. The Markets contain a treasure trove of local produce and items with up to 70 stalls occupying the streets and the Daniel Owen Square.



### Ffynnon Gwenffrewi

Treffynnon, CH8 7PN

**stwinefrideswell.org.uk**

seren ar TripAdvisor – 221 Adolygiad

Dyma un o'r cyrchfannau cysegredig hynaf ym Mhrydain. Mae hanes hir o bobl yn dod ar bererindod i Ffynnon Gwenffrewi oherwydd y gred fod trochi yn ei dyfroedd yn medru iachau pobl o'u salwch.

### St. Winefride's Well

Holywell, CH8 7PN

**stwinefrideswell.org.uk**

stars on TripAdvisor – 221 Reviews

One of the oldest continued sites of pilgrimage in Britain, St. Winefride's Well has had a storied history of people visiting due to the supposed healing powers of the well's waters.

## Y Fflint a Bwcle Flint and Buckley



### Castell Y Fflint

Y Fllint, CH6 5PE

**cadw.gov.wales**

★★★★☆ seren ar TripAdvisor – 215 Adolygiad

Castell Y Fflint oedd y gaer gyntaf a godwyd yng Nghymru gan Edward 1. Mae'n enwog oherwydd ei gynllun unigryw gyda dyfrffos yn amgylchynu'r tŵr mawr i greu yr hyn sydd i bob pwrpas yn gastell o fewn castell.

### Flint Castle

Flint, CH6 5PE

**cadw.gov.wales**

★★★★☆ stars on TripAdvisor – 215 Reviews

The first fortress in Wales constructed under Edward I, Flint Castle is known for its unique design, with the great tower surrounded by its own moat – a castle within a castle.



### Parc Gwledig Etna

Lleoliad – Bwcle, CH7 3LW

Lawrlwythwch ap digidol Gogledd Ddwyrain Cymru / North East Wales:

- **Ar gael yn yr App Store**
- **Ar gael o Google Play**

Roedd Parc Gwledig Etna ym Mwcle yn arfer bod yn dwll cloddio am glai yn ystod y chwyldro diwydiannol. Bellach mae'n lle gwych i weld byd natur yn ei ogoniant wrth gerdded ar hyd y llwybr a mwynhau'r awyr iach a'r golygfeydd.

### Etna Country Park


Buckley, CH7 3LW

Download the North East Wales Digital app:

- **Available on the App Store**
- **Get it on Google Play**

A former clay hole used during the Industrial Revolution, Etna Country Park has now been revitalised by wildlife, allowing walkers to follow along the path of industrial history while taking in fresh air and scenic sights.

## Glannau Dyfrdwy a Chei Connah Deeside and Connah's Quay



### The Boardroom Climbing

Glannau Dyfrdwy, CH5 2DH

**theboardroomclimbing.com**

★★★★★ seren ar TripAdvisor – 77 Adolygiad

Mae Lle Dringo Boardroom Climbing yn cynnig creigiau a waliau dringo sy'n addas arw gyfer dringwyr o bob oed a phrofiad. Mewn awyrgylch groesawgar gallwch fentro i fyny'r waliau, boed hynny am y tro cyntaf neu fel dringwr profiadol.

### The Boardroom Climbing

Deeside, CH5 2DH

**theboardroomclimbing.com**

★★★★★ stars on TripAdvisor – 77 Reviews

Offering numerous bouldering and climbing walls for climbers of all ages and experience levels, The Boardroom provides a welcoming atmosphere where you can take on walls no matter whether it's your first time or if you are an experienced climber.



### Teithiau Afon a Phorthladd Cei Connah

Cei Connah, CH5 4DS

**quayrivertours.com**

★★★★☆ seren ar TripAdvisor – 15 Adolygiad

Ewch ar daith ar y dŵr i lawr Afon Dyfrdwy o Gei Connah i ddinas Caer a mwynhau'r holl olygfeydd a'r bywyd a welir ar hyd yr afon.

### Connah's Quay Dock River Tours

Connah's Quay, CH5 4DS

**quayrivertours.com**

★★★★☆ stars on TripAdvisor – 15 Reviews

Take to the waters with this trip down the River Dee, which transports you from Connah's Quay to Chester, while showcasing all the sights of life along the river.